**Ar lan y môr**

Ar lan y môr mae rhosys cochion,
ar lan y môr mae lilis gwynion,
ar lan y môr mae'n nghariad inne,
yn cysgu'r nos a chodi'r bore.

Ar lan y môr mae carreg wastad
lle bum yn siarad gair am cariad,
oddeutu hon fe dyf y lili,
ac ambell sbrigyn o rosmari.

Ar lan y môr mae cerrig gleision
ar lan y môr mae blodau'r meibion,
ar lan y môr mae pob rhinwedde,
ar lan y môr mae'n nghariad inne.